# Credyd Cynhwysol ar Waith

Rhagfyr 2015

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Cynnydd ar gyflwyno | 6 |
| Gwell i hawlwyr | 8 |
| Gwell i gyflogwyr | 11 |
| Gwasanaeth gwell: gweithio gyda phartneriaid | 13 |
| Gwasanaeth gwell: profi a dysgu | 15 |

# Rhagair: Yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Diwygio Lles





Mae diwygio lles wrth wraidd cynllun economaidd hirdymor y llywodraeth hon, ond mae hefyd yn fwy o lawer na hynny: yn y bôn, mae diwygio lles yn ymwneud â chyfleoedd a newid bywydau.

I'r rheini sy'n gallu gweithio, rydym yn creu system sy'n eu cynorthwyo i wneud hynny – gan wneud newidiadau er mwyn trawsnewid gwladwriaeth les sy'n gwegian ac yn anhrefnus yn un sy'n gwobrwyo'r dewisiadau cywir ac yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n wynebu pobl.

Mae pob unigolyn a gynorthwyir i mewn i waith yn rhywun sy'n cael cyfle i wireddu ei ddyheadau a chyflawni ei botensial – teulu sydd â sicrwydd cyflog a gobaith am y dyfodol.

Yn yr un modd, mae'r symudiad hwnnw i mewn i waith – y symudiad hwnnw o ddibyniaeth i annibyniaeth – yn golygu bod unigolyn neu deulu bellach yn cyfrannu at iechyd economi'r DU. Drwy wneud hyn, rydym yn torri cost methiant cymdeithasol drwy drawsnewid cyfleoedd a chanlyniadau bywyd y rheini sy'n cael budd-daliadau.

Credyd Cynhwysol yw elfen ganolog ein diwygiadau – system sy'n sicrhau bod gwaith bob amser yn talu ffordd, ac sy'n dileu cymhlethdodau ac anhrefn y system flaenorol.

O ganlyniad, mae Credyd Cynhwysol yn rhoi hyder i bobl symud i mewn i gyflogaeth.

Efallai fod y syniad y dylai gwaith bob amser dalu ffordd yn ymddangos yn amlwg, ond mae'n werth cofio bod y system y mae Credyd Cynhwysol yn ei disodli yn gwneud budd-daliadau'n fwy atyniadol na gwaith – ac felly roedd yn dal pobl mewn dibyniaeth, gan arwain at wastraff truenus o botensial pobl.

Yr hyn sydd yr un mor niweidiol yw bod y system credyd treth - sydd hefyd yn cael ei disodli gan Gredyd Cynhwysol - yn cynnwys cymaint o beryglon nes ei bod yn gweithredu fel rhwystr ofnadwy rhag gwneud cynnydd yn eu gwaith, ac felly'n dal pobl ar gyflogau isel.

O edrych yn ôl, mae'n anghredadwy bod system o'r fath wedi cael ei chaniatáu cyhyd.

Yn ogystal â'r sicrwydd bod gwaith bob amser yn talu ffordd o dan Gredyd Cynhwysol, mae gan y system newydd fanteision pendant eraill – manteision a nodir yn yr adroddiad hwn.

Yn wahanol i fudd-daliadau blaenorol, nid yw Credyd Cynhwysol yn dod i ben pan fydd hawlydd yn dechrau gweithio. Yn lle hynny, bydd hawlwyr yn dal i'w gael cyhyd ag y bo'i angen arnynt, gan roi cymorth iddynt wneud cynnydd yn eu gwaith a chynyddu eu henillion nes iddynt fod yn gwbl rydd o'r system budd-daliadau. Fel y cyfryw, mae Credyd Cynhwysol yn cyflawni addewid y llywodraeth i newid cymdeithas o fod yn un â chyflogau isel a lles uchel i fod yn un â chyflogau uwch a lles is.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar ddyfodol gwaith a lles: dyfodol lle y bydd manteision cael swydd yn glir, a'r potensial i wneud cynnydd yr un mor glir.

Wrth i ni gyflwyno Credyd Cynhwysol, mae'r effaith ymddygiadol a welwn yn hynod. Mae hawlwyr yn ymateb i'r cymhellion clir i weithio, ac yn treulio dwywaith cymaint o amser yn chwilio am swydd nag yr oeddent o dan yr hen system. Ac, yn hollbwysig, mae'r adroddiad yn dweud wrthym bod hawlwyr yn ennill mwy o arian ac yn awyddus i weithio mwy o oriau.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod pobl yn symud i mewn i waith yn gyflymach, gyda 113 o bobl yn symud i mewn i waith o dan Gredyd Cynhwysol am bob 100 o dan yr hen system.

Mae hwn yn newid anferth – a bydd yn dod yn fwyfwy sylweddol wrth i'r system newydd gael ei sefydlu ledled y wlad. Mae Credyd Cynhwysol eisoes ar gael mewn 75% o ganolfannau gwaith, a bydd wedi cyrraedd pob un ohonynt erbyn gwanwyn 2016.

Yn achos gwaith a lles, Credyd Cynhwysol fydd etifeddiaeth y llywodraeth hon – sef newid dynamig a sylfaenol sydd eisoes yn trawsnewid bywydau er gwell, a bydd yn gwella llawer mwy o fywydau.

Dyma ddiwygio lles ar waith: newid dynameg y system, gan symleiddio pethau a sicrhau bod gwaith yn talu ffordd. Newid diwylliant a newid bywydau.

Mae'r adroddiad hwn yn dyst i ba mor llwyddiannus yw Credyd Cynhwysol yn barod; ond megis dechrau yw hyn.

**Y Gwir Anrh. Iain Duncan Smith AS**
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

**Yr Arglwydd David Freud**
Y Gweinidog Diwygio Lles

# Cynnydd ar gyflwyno

Mae Credyd Cynhwysol yn newid y ffordd rydym yn gweithio ymhob canolfan gwaith ac awdurdod lleol, ac mae gennym un cynllun ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn.

Gwnaethom ddechrau cyflwyno gwasanaeth byw Credyd Cynhwysol yn genedlaethol ar 16 Chwefror 2015. Erbyn hyn, mae ar gael mewn bron i 500 o ganolfannau gwaith; sef tri chwarter o gyfanswm y rhwydwaith cenedlaethol.

Erbyn mis Ebrill 2016, bydd Credyd Cynhwysol wedi cael ei gyflwyno i bob canolfan gwaith ac awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr.

Mae dros 26,000 o staff yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi cael eu hyfforddi i roi hyfforddiant swyddi a chymorth a chyngor arbenigol er mwyn annog a chymell hawlwyr wrth iddynt chwilio am waith. Bydd staff DWP yn cynorthwyo tua saith miliwn o bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol pan fydd wedi cael ei gyflwyno'n llawn.

### Datblygu'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn.

Ochr yn ochr â chyflwyno gwasanaeth byw Credyd Cynhwysol yn genedlaethol, gwnaethom ddechrau profi'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn yn Ne Llundain ym mis Tachwedd 2014. Mae'r gwasanaeth llawn yn darparu mwy o nodweddion ar-lein, gan roi mwy o reolaeth i hawlwyr dros eu hawliad Credyd Cynhwysol, gydag un cyfrif ar gyfer taliadau, rhoi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau, a chael hysbysiadau am swyddi ac adborth gan hyfforddwyr gwaith.

Byddwn yn lansio'r gwasanaeth llawn o fis Mai 2016 ymlaen. Byddwn yn gwneud hynny mewn modd diogel, fesul ardal, a lle y bo'r gwasanaeth llawn ar waith, ni fydd pobl yn gallu gwneud hawliadau newydd am fudd-daliadau o dan yr hen system mwyach.


Rydym ar y trywydd cywir gydag un cynllun ar gyfer cyflwyno ac ymestyn Credyd Cynhwysol, gwella'r gwasanaeth yn barhaus a chyflwyno'r rhaglen am gostau buddsoddi llai.

**Mae'r cynllun ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol yn drawsnewidiol, ac fe'i diogelwyd gan yr Awdurdod Prosiectau Mawr.**

Gan adeiladu ar y llwyddiant hyd yma wrth ei gyflwyno, rydym bellach wedi datblygu cynlluniau manwl ar gyfer parhau â'r gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol nes ei fod wedi'i gwblhau. Mae hyn yn dilyn sicrwydd diweddar gan yr Awdurdod Prosiectau Mawr, ac yn cyd-fynd â thybiaethau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae'r achos busnes amlinellol wedi'i gymeradwyo gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi datgan yn glir bod DWP bellach wedi rhoi sylfaen gadarnach i Gredyd Cynhwysol. Mae pob un o'r rheini sydd wedi adolygu'r rhaglen wedi dweud bod ganddynt fwy o hyder yn y ffordd y caiff ei chyflwyno.

## Mae gennym un cynllun ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn yn ddiogel



# Gwell i hawlwyr


**O dan Gredyd Cynhwysol, mae pobl yn gweithio mwy ac yn well eu byd mewn gwaith.**

Yn Credyd Cynhwysol ar Waith[1] (gwanwyn 2015) gwnaethom ddweud bod Credyd Cynhwysol yn dechrau cyflawni canlyniadau ariannol a chanlyniadau gwaith gwell i hawlwyr. Dangosodd gwerthusiadau cychwynnol fod hawlwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cymell i gymryd mwy o gyfrifoldeb am chwilio am swydd.

Erbyn hyn, mae gennym fwy o dystiolaeth bod y tuedd yn cael ei gynnal, a bod Credyd Cynhwysol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran sicrhau bod pobl yn agosach at y farchnad lafur ac felly'n gwella eu siawns o ddod o hyd i swydd. Mae'r ymchwil[2] a adolygwyd yn annibynnol wedi canfod y canlynol:

- Mae hawlwyr Credyd Cynhwysol wyth pwynt canrannol yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn ystod naw mis cyntaf eu hawliad – 71% ar gyfer Credyd Cynhwysol o gymharu â 63% ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith. Mae hyn yn wir am wahanol garfannau, rhywiau a grwpiau oedran.

## Mae hawlwyr Credyd Cynhwysol wyth pwynt canrannol yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn ystod naw mis cyntaf eu hawliad




1 www.gov.uk/government/publications/universal-credit-at-work

2 www.gov.uk/government/publications/universal-credit-estimating-the-early-labour-market-impacts-updated-analysis

- Ar gyfartaledd, mae hawlwyr Credyd Cynhwysol yn gweithio 12 diwrnod yn fwy na hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod naw mis cyntaf eu hawliad.
- Mae hawlwyr Credyd Cynhwysol, ar gyfartaledd, yn ennill mwy.

Yn wrthnysig, achosodd Lwfans Ceisio Gwaith i bobl gyfyngu nifer yr oriau a weithiwyd ganddynt er mwyn osgoi colli eu budd-daliadau. Mae Credyd Cynhwysol yn newid hyn, gan ysbrydoli pobl i gynyddu eu horiau a dod yn fwy annibynnol yn ariannol. Erbyn hyn, gallwn weld bod hyn yn digwydd, gan fod gwerthusiad[3] o hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n gweithio llai na 30 awr yr wythnos yn dangos bod:

- 86% yn ceisio gweithio mwy o oriau, o gymharu â 38% o dan Lwfans Ceisio Gwaith.
- 77% yn ceisio ennill mwy, o gymharu â 51% o dan Lwfans Ceisio Gwaith.

## Kirsty, hawlydd Credyd Cynhwysol, Swydd Gaerhirfryn



**Kirsty**, Swydd Gaerhirfryn

Rhoddodd Credyd Cynhwysol gyfle i Kirsty, sy'n fam sengl, ailymuno â'r diwydiant yr oedd wedi hyfforddi ynddo. Mae hefyd wedi bod yn gam gwych o ran datblygu ei gyrfa, gan fod ei chyflogwr wedi cynnig swydd llawn amser iddi bellach.

Dywed Kirsty: *"Mae wedi bod yn grêt gan fod y bechgyn yn gallu mynd i glwb brecwast ac ar ôl ysgol, ac rwy'n defnyddio'r cymorth gofal plant a gaf drwy Gredyd Cynhwysol i dalu amdano. Pe na bai'r cymorth hwnnw gen i, fyddwn i ddim wedi gallu derbyn y swydd."*

*"Roedd yn deimlad mor braf mynd allan i weithio am fy arian a gallu ei gadw. Pan oeddwn yn cael Lwfans Ceisio Gwaith, doedd dim cymhelliant i mi ennill mwy ac felly dim ysgogiad i ddod o hyd i swydd go iawn. Rwy'n hapusach o lawer o gael Credyd Cynhwysol."*

3 www.gov.uk/government/publications/universal-credit-research-with-single-claimants-including-those-with-housing-costs

**Mae Paru Swyddi Ar-lein, a lansiwyd yn 2012, wedi chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn chwilio am waith.**

Mae dyddiau'r hen 'fyrddau swyddi' mewn canolfannau gwaith wedi mynd. Yn lle hynny, ceir system chwilio ddigidol a phersonol, gydag arbenigwyr ar gael i helpu ceiswyr gwaith. Gwasanaeth ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd yw Paru Swyddi Ar-lein, ac o fewn amser byr iawn hwn yw'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd[4] ar GOV.UK, gyda mwy na 56 miliwn o ymweliadau unigryw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Paru Swyddi Ar-lein wedi trawsnewid y ffordd y mae'r hyfforddwr gwaith yn helpu ceiswyr gwaith a chyfathrebu â hwy drwy:

- Rymuso ceiswyr gwaith i gymryd mwy o gyfrifoldeb am chwilio am waith.
- Helpu hyfforddwyr gwaith i roi cymorth wedi'i deilwra er mwyn helpu ceiswyr gwaith i symud i mewn i waith.

4 https://gds.blog.gov.uk/2015/11/20/2-billion-and-counting

# Gwell i gyflogwyr

**Mae Credyd Cynhwysol yn wahanol yn yr ystyr ei fod yn creu gweithlu hyblyg sy'n helpu cyflogwyr i dyfu eu busnesau.**

O dan Gredyd Cynhwysol, mae taliadau hawlwyr yn lleihau'n raddol wrth i'w cyflog clir gynyddu, yn hytrach na dod i ben yn llwyr ar ôl cyrraedd nifer benodol o oriau, fel yn achos Lwfans Ceisio Gwaith. Mae hyn yn gwneud pobl yn fwy parod i weithio oriau ychwanegol a bod yn hyblyg o ran yr oriau y maent yn eu gweithio. Yn ogystal â'u hannog i ennill mwy, mae hyn hefyd yn helpu cyflogwyr i addasu eu gweithlu yn ôl eu hanghenion busnes.

Dywed cyflogwyr wrthym eu bod eisoes yn defnyddio'r hyblygrwydd y mae Credyd Cynhwysol yn ei gynnig i greu swyddi a chynyddu nifer yr oriau a gynigir i gyflogeion. Pan fydd y gwasanaeth wedi'i gyflwyno'n llawn, bydd yr hyblygrwydd gwell yn y farchnad lafur yn rhoi mantais gystadleuol newydd i Brydain Fawr dros economïau mawr eraill.

**Helpu cyflogeion i wneud cynnydd yn eu gwaith.**

Cynnydd o ran enillion yw un o amcanion craidd Credyd Cynhwysol. Pan fydd pobl mewn gwaith, mae'n eu helpu i gynyddu eu henillion, paratoi ar gyfer mwy o waith yn y dyfodol ac, yn y pen draw, dod yn annibynnol yn ariannol. Mae'r dull gweithredu hwn yn unigryw ledled y byd ac mae'n ganolog i'r bwriad polisi sy'n sail i Gredyd Cynhwysol.

Rydym wrthi'n profi'r ffyrdd gorau o gefnogi cynnydd hawlwyr yn eu gwaith. Yn Credyd Cynhwysol ar Waith[5] (Hydref 2014) gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i brofi dulliau lle bydd hyfforddwyr gwaith yn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol ac yn helpu hawlwyr i wneud cynnydd pan fyddant mewn gwaith. Mae tair prif elfen:

- Darparu cymorth gan hyfforddwr gwaith i bennu nodau, mynd i'r afael â rhwystrau a diffinio camau gweithredu ar gyfer hawlwyr.
- Pennu gofynion gorfodol er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn cymryd camau rhesymol a ddylai eu helpu i ennill mwy.
- Mynychu adolygiadau chwilio am waith (bydd pa mor aml yn amrywio) er mwyn cael sgyrsiau heriol i fonitro a sbarduno'r cynnydd y mae hawlwyr yn ei wneud.

Mae defnyddio enillion sydd wedi'u datgan i Gyllid a Thollau EM drwy Wybodaeth Amser Real yn golygu y gallwn ddilyn trywydd enillion hawlydd heb roi baich ychwanegol ar gyflogwyr.

Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth i gyflogwyr ar sut y gall Credyd Cynhwysol helpu busnesau[6].

5 www.gov.uk/government/publications/universal-credit-at-work
6 www.gov.uk/guidance/universal-credit-how-it-can-help-your-business

## Gwella gyrfaoedd i weithwyr ar gyflogau isel.

Yn ogystal â chymorth a arweinir gan ganolfannau gwaith, rydym yn profi ffyrdd o helpu cyflogwyr i sbarduno cynnydd o ran enillion ymhlith gweithwyr ar gyflogau isel. Ym mis Mehefin 2015, gwnaethom lansio cystadleuaeth ar y cyd â Chomisiwn y DU[7] i dreialu dulliau newydd. Roedd y gystadleuaeth hon yn canolbwyntio ar fanwerthu a lletygarwch; sectorau â nifer fawr o weithwyr ar gyflogau isel, trosiant staff uchel ac ychydig iawn o gynnydd.

Roedd yn rhaid i brosiectau ddangos dau fesur llwyddiant clir:

- Y canlyniadau i staff ar gyflogau isel – gan gynnwys aros mewn gwaith yn hirach a mwy o enillion.
- Y canlyniadau i'r busnes – gan gynnwys cynhyrchiant ac elw clir uwch, cadw mwy o staff, mwy o foddhad a theyrngarwch ymhlith staff, a gostyngiadau yng nghyfanswm y costau recriwtio.

Mae'r treialon yn cynnwys amrywiaeth dda o ddulliau, gyda chyflogwyr unigol, consortia, a chydweithrediadau rhwng sefydliadau mawr a busnesau bach a chanolig. Mae lefel y gweithio mewn partneriaeth yn y prosiectau hyn yn arloesol. Maent wedi gwneud cynnydd da, ac rydym wrthi'n ffurfio darlun manwl o'r modelau sy'n cael eu profi.

### Maes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr[8]



**Howard Ebison,**
Maes Awyr Dwyrain

Mae Credyd Cynhwysol yn helpu Maes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr i ddiwallu ei angen am staff tymhorol.

Dywed Howard Ebison, Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid: *"Mae'r ganolfan gwaith yn deall llanw a thrai ein busnes i'r dim. Maent yn deall bod angen i ni recriwtio llawer o bobl ar frys ar adegau, a'r ddealltwriaeth hon o'r ffordd rydym yn gweithio sy'n eu gwneud yn bartner busnes delfrydol."*

*"Mae Credyd Cynhwysol yn golygu bod gennym ystod ehangach o bobl yn gwneud cais am swyddi gwag, sy'n wych i fusnes. Os yw'n golygu bod mwy o bobl yn ymuno â'r gweithle, yna mae gennym ni, fel cyflogwr, gyfle i ddewis ein staff o gronfa ehangach. Mae hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa wych."*

7 www.gov.uk/government/news/government-boost-to-help-low-paid-workers-progress-in-their-careers
8 www.youtube.com/watch?v=4QnOH6hE7DY

# Gwasanaeth gwell: gweithio gyda phartneriaid

**Mae Credyd Cynhwysol yn darparu cymorth lleol wedi'i deilwra a phartneriaethau sy'n trawsnewid ein gwasanaeth.**

- Mae'r sector llywodraeth leol, sy'n cynnwys pob un o'r 380 o awdurdodau lleol, y tair prif gymdeithas llywodraeth leol a gweinyddiaethau datganoledig yr Alban a Chymru, wedi chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o lunio a chyflwyno Credyd Cynhwysol.

- Drwy Gymorth Cynhwysol, rydym yn cydweithio'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig, o'r un lleoliad ar adegau, i hawlwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda rheoli'r newid i Gredyd Cynhwysol.

**Helpu pobl y mae angen mwy o gymorth arnynt.**

- Rydym yn darparu cymorth cyllidebu personol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Cynghori ar Arian. Mae hyn yn cynorthwyo hawlwyr y mae angen help arnynt i reoli eu harian a thalu eu biliau ar amser wrth iddynt newid i Gredyd Cynhwysol. Mae cyngor ar gael ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

- Rydym yn buddsoddi £240 miliwn gyda'n partneriaid dros y chwe blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn symud ymlaen o ddibyniaeth ar les i annibyniaeth ariannol a digidol.

- Rydym yn datblygu rôl partner yr ymddiriedir ynddo ar gyfer landlordiaid cymdeithasol, sy'n adlewyrchu eu safle hollbwysig o ran mynd ati'n gynnar i nodi anghenion cymorth cyllidebu a'r galw posibl am drefniadau talu amgen.

## Cyngor Dinas Rhydychen



**Damon Venning,**
Cyngor Dinas Rhydychen

Dywed Damon Venning, rheolwr rhenti Cyngor Dinas Rhydychen:

*“Gwnaethom helpu tenantiaid yn Rhydychen i baratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol drwy wneud taliadau uniongyrchol yn arfer cyffredin. Y peth pwysicaf y gwnaethom ei ddysgu oedd bod angen rhoi cymorth yn gynnar. Roedd hyn yn cynnwys trefnu ymweliadau cartref i roi cymorth wyneb yn wyneb i bobl yr oeddem eisoes wedi asesu eu bod yn fregus.*

*“Rydym hefyd yn cydweithio’n agos â’r Ganolfan Byd Gwaith, ac mae rhai o’n cleientiaid yn cael eu hatgyfeirio i gymorth cyflogaeth, fel cyrsiau hyfforddi neu brofiad gwaith, er mwyn eu helpu i fod yn barod i weithio.*

*“Y canlyniad pwysicaf oedd bod ein tenantiaid yn barod ar gyfer Credyd Cynhwysol pan gafodd ei gyflwyno yn Rhydychen ym mis Ebrill.”*

# Gwasanaeth gwell: profi a dysgu

## Gyda Chredyd Cynhwysol, rydym yn gwerthuso perfformiad pob elfen o'r rhaglen yn gyson – a sut y gallwn wella ymhellach.


Ar bob cam o'r gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol, mae'r adran wedi profi cysyniadau newydd a chynnal treialon er mwyn darganfod beth sy'n gweithio. Drwy werthuso'r prosesau hyn yn ofalus, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau ynghylch datblygu, cynllunio a chyflwyno Credyd Cynhwysol.

Mae ein dull gweithredu o ran dysgu a mireinio yn parhau i wella profiad cyffredinol yr hawlydd:


- Yn ôl ymchwil[9] ddiweddar, mae profiad hawlwyr o Gredyd Cynhwysol yn gadarnhaol ar y cyfan, ac maent yn teimlo bod y broses yn syml ac yn haws ei deall.
- Dywedodd 90% o hawlwyr y byddai'r tasgau o'u hymrwymiad hawlydd yn rhoi siawns well iddynt i ddod o hyd i waith.
- Mae hawlwyr a oedd wedi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn flaenorol yn teimlo bod Credyd Cynhwysol yn cynnig cymhellion ariannol gwell i weithio, yn gwobrwyo symiau bach o waith yn well, ac yn ei gwneud yn haws deall beth sy'n ofynnol er mwyn cael Credyd Cynhwysol.

Mae staff DWP hefyd wedi cael profiad yr un mor gadarnhaol â'r rhan fwyaf o hawlwyr. Mae'n well gan hyfforddwyr gwaith Gredyd Cynhwysol na'r system flaenorol, a dywed y staff sy'n cyflwyno Credyd Cynhwysol mewn canolfannau gwaith a chanolfannau gwasanaethau wrthym ei fod yn symlach ac yn haws ei weinyddu. Mae hyfforddwyr gwaith hefyd yn gweld bod ganddynt gydberthnasau mwy cadarnhaol a chefnogol â'u hawlwyr.


### Cymhelliant ariannol gwell i weithio




### Gwobr well am symiau bach o waith




### Haws deall beth sy'n ofynnol yn gyfnewid am daliadau




Sail: holl hawlwyr Credyd Cynhwysol haen un yr ymchwil a oedd wedi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

9 www.gov.uk/government/publications/universal-credit-research-with-single-claimants-including-those-with-housing-costs

Cynhyrchwyd gan yr
Adran Gwaith a Phensiynau
Rhagfyr 2015
www.gov.uk/dwp